# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**ADRODDIAD I:** **Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach**

**DYDDIAD:** **6 Hydref 2021**

**LLEOLIAD:** **Siambr y Cyngor, Penmorfa**

**TEITL:** **Diweddariad ar recriwtio Gofalwyr Maeth yng Ngheredigion sy'n siaradwyr Cymraeg**

**PWRPAS YR ADRODDIAD: Cynghori Aelodau'r Pwyllgor ynghylch y sefyllfa bresennol mewn perthynas â recriwtio Gofalwyr Maeth, a siaradwyr Cymraeg yn benodol**

**Y RHESWM Y MAE CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH: Cais am ddiweddariad gan aelodau'r pwyllgor**

**CEFNDIR:**

Mae'r Gwasanaeth Maethu yng Ngheredigion yn darparu lleoliadau hirdymor a thymor byr ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion. Mae ystod oedran y gwasanaeth ar gyfer plant o'u geni hyd at 18 mlwydd oed. Ar hyn o bryd, mae gan Gyngor Sir Ceredigion 31 o Deuluoedd Maeth cofrestredig.

Mae gan y Sir hefyd 16 o ofalwyr sy'n berthnasau (sydd hefyd yn cael eu hadnabod fel teulu a ffrindiau) a ddynodwyd ac a symudwyd ymlaen drwy'r un prosesau â Gofalwyr Maeth prif ffrwd ac a gofrestrwyd i roi gofal a chefnogaeth i blentyn/plant sy'n derbyn gofal penodol, fel yr amlinellir yn eu cofrestriad unigol. Lleolir y gofalwyr sy'n berthnasau yng Ngheredigion ledled y Deyrnas Unedig.

**Y sefyllfa bresennol**

Ar hyn o bryd, mae llai na 5 o blant mewn lleoliadau maethu prif ffrwd/maethu gan berthnasau yng Ngheredigion sydd wedi'u dynodi â'r Gymraeg yn iaith a ffefrir ganddynt. Fodd bynnag, y mae yna blant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ac mae'r gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant.

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â gallu gofalwyr maeth o ran y Gymraeg;

| **Lefel ALTE** | **Gwrando a siarad Cymraeg** (Nifer y gofalwyr) | **Darllen Cymraeg** (Nifer y gofalwyr) | **Ysgrifennu Cymraeg** (Nifer y gofalwyr) |
|---|---|---|---|
| **0** | 6 | 11 | 14 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | 9 | 9 | 5 |
| **2** | 5 | 1 | 2 |
| **3** | 2 | 0 | 1 |
| **4** | 0 | 1 | 0 |
| **5** | 1 | 1 | 1 |

**Meysydd gwasanaeth y mae angen datblygu ymhellach arnynt**

**Recriwtio -** Elfen allweddol ar gyfer y gwasanaeth wrth symud ymlaen yw gweithio gydag ymgyrchoedd recriwtio Cenedlaethol a Rhanbarthol a fydd yn rhoi ystod o gyfleoedd wedi'u targedu'n benodol sy'n ddefnyddio adnoddau Cenedlaethol gan gynnwys y cyfryngau e.e. hysbysebion ar S4C ac ITV. Ychwanegir at hyn gan gynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu Sirol a fydd yn canolbwyntio ar dargedu ymgyrchoedd penodol wedi'u gyrru gan anghenion dynodedig ar gyfer ein Plant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion e.e. ymgysylltu â chlybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr a grwpiau yn y gymuned ehangach.

**Cefnogi Iaith -** rhoi cyfleoedd i Ofalwyr Maeth Ceredigion wella eu sgiliau iaith drwy gael mynediad i hyfforddiant a chyfleoedd a ddarperir drwy Borth Cymorth Cynnar.

**Cefnogaeth ddiwylliannol -** datblygu cynllun integreiddio a chymdeithasu blynyddol gan fanteisio i'r eithaf ar dreftadaeth a diwylliant Ceredigion a rhoi'r wybodaeth a'r mynediad i'r Gofalwyr Maeth i gyfoeth o weithgareddau'n ymwneud â diwylliant a threftadaeth ac amgylcheddau naturiol yn lleol. Bydd y gwasanaeth yn gweithio mewn cydweithrediad â Phorth Cymorth Cynnar, yr adran Addysg a sefydliadau trydydd sector i ehangu a dathlu'r cyfoeth o ddarpariaeth leol sydd ar gael i Ofalwyr Maeth Ceredigion.

**ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION: Nodi'r wybodaeth a geir yn yr adroddiad.**

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:**

**Enw Cyswllt:** **Donna Pritchard**
**Swydd:** **Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal**
**Dyddiad yr Adroddiad:** **24.08.2021**
**Acronymau:** **Dim**